



Priodoldeb i Ymarfer

Athrawon ysgol sy'n methu â bodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth, ac sy'n anfodlon ar y penderfyniad

Beth yw Cyngor y Gweithlu Addysg?

Mae Cyngor y Gweithlu Addysg ('CGA') yn gorff annibynnol sy'n rheoleiddio ymarferwyr addysg yng Nghymru er budd y cyhoedd – eich budd chi.

Ystyr 'rheoleiddio' yw bod CGA yn gyfrifol am sicrhau bod ymarferwyr addysg yn addas i ymarfer yng Nghymru. Mae cyflawni'r gwaith hwn yn rhoi diogelwch, a hyder yn y proffesiynau addysg i chi, i ddysgwyr ac i ymarferwyr. Mae gan bawb hawl i ddisgwyl y safonau uchaf gan ymarferwyr addysg wrth addysgu dysgwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc.

Sut mae CGA yn rheoleiddio?

Mae CGA yn rheoleiddio drwy gynnal Cofrestr Ymarferwyr Addysg yng Nghymru.

Ni ellir cyflogi person fel:

- athro cymwysedig sy'n cyflawni gwaith penodedig athro mewn ysgol a gynhelir, neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru (athro ysgol);
- person sy'n darparu addysg mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru (athro AB);
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol sy'n cefnogi athro ysgol wrth ddarparu gwasanaethau penodol mewn ysgol a gynhelir, neu ysgol arbennig nas cynhelir yng Nghymru;
- gweithiwr cymorth dysgu addysg bellach sy'n darparu gwasanaethau penodol mewn neu ar ran sefydliad addysg bellach yng Nghymru;
- gweithiwr ieuentid sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuentid i neu ar ran corff perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr);
- gweithiwr cymorth ieuentid sy'n darparu gwasanaethau datblygu ieuentid i neu ar ran corff perthnasol (heblaw fel gwirfoddolwr);
- ymarferydd dysgu seiliedig ar waith sy'n darparu gwasanaethau i neu ar ran corff dysgu seiliedig ar waith (heblaw fel gwirfoddolwr);
- athro ysgol annibynnol sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athro ysgol annibynnol mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 sy'n darparu (neu'n dymuno darparu) gwasanaethau athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- gweithiwr cymorth ysgol annibynnol sy'n cefnogi (neu'n dymuno cefnogi) gwasanaethau athro ysgol annibynnol mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru;
- gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol arbennig ôl-16 sy'n cefnogi (neu'n dymuno cefnogi) gwasanaethau athro ysgol annibynnol arbennig ôl-16 mewn, neu ar gyfer ysgol annibynnol yng Nghymru,

oni bai eu bod wedii cofrestru gyda CGA.

Mae cofrestru'n rhoi sicrwydd i gyflogwr a'r cyhoedd nad oes gan berson cofrestredig ddim byd perthnasol wedi'i gofnodi yn ei erbyn a allai ei wneud yn anaddas i addysgu dysgwyr, yn enwedig plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd bod athro ysgol yn meddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC).

Mae'n rhaid i athrawon ysgol newydd gymhwyso yng Nghymru fodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Mae CGA yn gwrandao ar apelïadau gan athrawon ysgol sydd wedi methu â bodloni'r Safonau, neu y mae angen mwy o amser arnynt i wneud hynny.

A oes safonau y mae disgwyl i athrawon ysgol newydd gymhwyso eu bodloni?

Oes. Mae gan CGA God Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol sy'n ganllaw i'r safonau y gall dysgwyr, rhieni a'r cyhoedd eu disgwyl gan bersonau cofrestredig, ac mae'n helpu ymarferwyr addysg i ddeall yr hyn mae eraill yn ei ddisgwyl ganddynt fel gweithwyr proffesiynol.

Mae'r Cod yn nodi'r disgwyliad ar athrawon ysgol newydd gymhwyso i fodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Gall awdurdod lleol (a gaiff ei ddisgrifio fel 'y Corff Priodol' at ddibenion Sefydlu) benderfynu bod athro ysgol wedi methu â bodloni'r Safonau hyn yn briodol, neu fod angen mwy o amser i'w bodloni, yn eu blynyddoedd cyntaf o addysgu.

Gall athrawon ysgol apelio yn erbyn penderfyniad y Corff Priodol os nad ydynt yn cytuno ag ef.

Gwrandawriad apêl

Mae CGA yn gyfrifol am wrando ar apelïadau Sefydlu athrawon ysgol.

Gall CGA benderfynu:

- caniatáu apêl
- gwrthod yr apêl, neu
- roi mwy o amser i'r athro ysgol fodloni'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth

Os caiff yr apêl ei gwrthod, caiff cofrestriad yr athro ysgol ei ddileu am byth. Mae hyn yn golygu na chaiff ef neu hi barhau i weithio fel athro neu athrawes mewn ysgol y wladwriaeth neu ysgol arbennig yng Nghymru.

Ynghylch y daflen hon

Crynodeb bras yw'r wybodaeth yn y daflen hon am weithdrefnau apelïadau Sefydlu CGA.

O dan unrhyw amgylchiadau, *Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015*, fel y'i diwgyiwyd ac *Arweiniad a Gweithdrefnau ar gyfer Gwrandao ar Apelïadau Sefydlu 2022* CGA sy'n cael blaenoriaeth. Mae'r Arweiniad a gwybodaeth arall am rôl reoleiddio CGA i'w gweld yn www.cga.cymru

Nid oes unrhyw reolau cyffredinol yn berthnasol wrth benderfynu a ddylai apêl athro ysgol gael ei chaniatáu ai peidio.

Cyswllt allweddol

Cyfeiriad **Y Tîm Priodoldeb i Ymarfer**, Cyngor y Gweithlu Addysg, 9fed Llawr, Eastgate House, 35-43
Ffordd Casnewydd, Caerdydd, CF24 0AB

Ffôn 029 2046 0099

E-bost priodoldebiymarfer@cga.cymru

Caiff personau cofrestredig (athrawon ysgol) sy'n apelio gyflwyno ffurflenni, dogfennau a sylwadau ysgrifenedig i CGA yn Gymraeg neu Saesneg.